



The Open
University
Y Brifysgol
Agored

WALES CYMRU

Sarah S



Hoffwn ddweud wrthych chi heddiw sut symudais i fy addysgu ar-lein. Ar ôl cwblhau sawl cwrs sy'n cael eu cynnig gan y Brifysgol Agored ar addysg ar-lein, dechreuais addysgu ar gyfer ysgol gynradd ac uwchradd ar-lein yn y DU. Yn bersonol, rydw i'n yn addysgu Saesneg ITCSE o fewn y system ac yn gwneud ychydig o wersi preifat hefyd. Ac mae yna sôn am ddatblygu ac ehangu fy addysgu, a byddaf yn addysgu Saesneg Safon Uwch cyn bo hir hefyd.

Mae'r sefydliad penodol rydw i'n gweithio iddo yn defnyddio system o wersi cydamserol. Felly, mae'r myfyrwyr yn mewngofnodi ar yr un pryd â fi, ac mae gennym ni ddsbarth. Rydym ni'n defnyddio meddalwedd o'r enw Electa. Ac o fewn Electa, gall fy myfyrwyr weld fy sleidiau wedi'u paratoi. Maen nhw'n gallu fy nghlywed i'n siarad â nhw. Rydw i'n gallu eu clywed nhw'n siarad â fi. Ac wrth gwrs, maen nhw'n clywed ei gilydd hefyd. Maen nhw'n gallu ysgrifennu ar y bwrdd gwyn, ac maen nhw hefyd yn cael math o sgwrs ar ffurf testun, a gallant ddefnyddio hyn i gyfathrebu â fi, a chyfathrebu â'i gilydd hefyd. Mae'n siŵr y gallech chi alw hynny'n fath o sianel gefn. Mae ar gael o fewn y system.

Yn ogystal â defnyddio'r feddalwedd ystafell ddsbarth i gyflwyno'r dosbarthiadau, mae amgylchedd dysgu rhithwir hefyd, sy'n fy ngalluogi i storio adnoddau defnyddiol ar gyfer fy myfyrwyr er mwyn iddyn nhw allu mynd atynt unrhyw bryd. Ac rydym ni'n rhoi gwaith cartref yno hefyd, ac rydw i'n marcio oddi yno hefyd. Mae'r holl ddsbarthiadau rydw i'n eu cyflwyno yn cael eu cofnodi, ac felly mae myfyrwyr yn gallu eu chwarae'n ôl os ydyn nhw wedi colli rhywbeth neu wedi camddeall rhywbeth, neu os ydyn nhw'n sâl neu'n methu mynychu dosbarthiadau.

Fe wnes i wirioneddol fwynhau creu grŵp myfyrwyr bywiog, rhyngweithiol a brwd ar-lein, ac rydw i wedi llwyddo i wneud hynny gyda gwahanol grwpiau oedran yn yr ysgol. Fel athrawes sydd â diddordeb arbennig mewn addysgu myfyrwyr ag awtistiaeth gweithredu lefel uchel, rydw i'n rhyfeddu'n barhaus at y modd y mae addysgu ar-lein ar yr un lefel â'r addysgu academaidd, i bob pwrpas – neu, yn hytrach, y sefyllfa addysgol, fel bod myfyrwyr â'r problemau penodol hyn yn gallu dangos eu galluoedd academaidd gwirioneddol heb boeni am yr amgylchedd, sy'n aml mor anaddas ar eu cyfer nhw. Ac mae wedi bod yn hyfryd gwyllo faint o'm myfyrwyr sydd wedi ffynnu felly. Nhw, wrth gwrs, yw'r unig grŵp penodol y mae addysg ar-lein yn addas iawn ar eu cyfer – mae'n gweithio i wahanol grwpiau lluosog o bobl am lawer o resymau gwahanol.

Ond ie, os ydych chi'n meddwl am fwrw ymlaen ag addysgu ar-lein, byddwn i'n ei argymhell yn fawr. Fyddwn i ddim yn dewis newid yn ôl i'r ystafell ddsbarth gonfensiynol bellach. I fi, mae gormod o fanteision a gormod o gyfleoedd yn cael eu cynnig gan y math o addysgu rydw i'n ei wneud ar hyn o bryd.